



# Rhaglen Waith 2014-15

## Cyd-destun

Ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd y Comisiynydd ei Fframwaith Gweithredu ar gyfer 2013-17, sy'n amlinellu ei blaenoriaethau strategol er mwyn sicrhau newid ym mywydau pobl hŷn ledled Cymru:

- Gwreiddio llesiant pobl hŷn wrth galon gwasanaethau cyhoeddus
- Gwella ansawdd iechyd a gofal cymdeithasol – a'u hargaeledd a mynediad atynt
- Amddiffyn a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol
- Sefyll cornel pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu niweidio a sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn
- Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu

Mae cyflawni'r blaenoriaethau hyn wedi'i seilio ar bedair swyddogaeth statudol y Comisiynydd, a amlinellir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch buddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hyn
- Hyrwyddo darparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru, a dileu pob gwahaniaethu yn eu herbyn
- Annog arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru
- Adolygu'n gyson ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith fel y mae'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

## Rhaglen Waith 2014-15

Mae'r Comisiynydd wedi datblygu ei Rhaglen Waith 2014-15 ar sail y blaenoriaethau yn ei Fframwaith ar gyfer Gweithredu. Amlinellir manylion y gwaith sydd ar y gweill yn 2014-15 isod.

### Ymgysylltu â phobl hŷn ledled Cymru

Bydd y Comisiynydd a'i thîm yn parhau i deithio ar hyd a lled Cymru gyda Sioe Deithiol Ymgysylltu'r Comisiynydd i sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o rôl, gwaith a blaenoriaethau'r Comisiynydd. Bydd y Comisiynydd a'i thîm yn parhau i gwrdd, a sgwrsio, â phobl hŷn i ddysgu mwy am y materion sydd agosaf at eu calonnau, a sicrhau mai eu lleisiau nhw sydd wrth galon gwaith y Comisiynydd.

### Rhagfarn ar Sail Oed a Gwahaniaethu

Bydd y Comisiynydd yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r effaith y mae gwahaniaethu ar sail oed a gwahaniaethu yn ei chael ar fywydau pobl hŷn ac ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon. Bydd hyfforddiant ar gyfer mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn ein holl wasanaethau cyhoeddus, a bydd pecyn gwybodaeth ar gyfer pobl hŷn hefyd yn cael ei ddatblygu i'w cefnogi i herio gwahaniaethu.

### Hawliau Dynol

Bydd gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod hawliau dynol yn cael eu defnyddio yng Nghymru fel cyfrwng ymarferol i gefnogi a gwella gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Comisiynydd hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn arfaethedig, er mwyn gallu ei ddefnyddio ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus i gryfhau hawliau pobl hŷn a sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau cyflawn ac annibynnol.

### Gwasanaethau Cymunedol

Gan adeiladu ar adroddiad y Comisiynydd 'Pwysigwydd ac Effaith Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru', a gyflwynodd achos cryf dros amddiffyn gwasanaethau, cyfleusterau a seilwaith cymunedol, bydd y Comisiynydd yn cynnal cyfres o seminarau gyda staff gwasanaethau cyhoeddus i drafod a chytuno ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o symud ymlaen i gyflawni'r canlyniadau gorau dros bobl hŷn.

Er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu ymgysylltu'n llawn ag Awdurdodau Lleol a dylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arnynt, bydd pecyn gwybodaeth ymarferol hefyd yn cael ei gyhoeddi i'w ddefnyddio pan fydd newidiadau i wasanaethau cymunedol yn cael eu cynnig, yn ogystal â chanllaw arferion da i Awdurdodau Lleol ynglŷn â sut i wella prosesau ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl hŷn.

## Diogelu ac Amddiffyn

Bydd y Comisiynydd yn parhau i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â natur ac effaith camdriniaeth a wynebir gan bobl hŷn. Bydd y Comisiynydd yn gweithio gyda'r system cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â bylchau cyfredol yn y gyfraith ym maes amddiffyn oedolion a chwalu rhwystrau sy'n atal mynediad at gyfiawnder i bobl hŷn.

## Yr Adolygiad o Ofal Preswyl

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi canfyddiadau ei Hadolygiad o Ofal Preswyl ynglŷn ag ansawdd y bywyd a'r gofal y mae pobl hŷn sy'n byw mewn gofal preswyl yng Nghymru yn ei dderbyn, ynghyd â chyfres o ofynion ar gyfer gweithredu a fydd yn sicrhau bod ansawdd bywyd yn cael ei osod wrth galon y ddarpariaeth gofal preswyl yng Nghymru.

Bydd y canfyddiadau yn adlewyrchu lleisiau pobl hŷn, eu perthnasau, gofalwyr ac eraill, yn ogystal â'r hyn a ddywedasant wrth y Comisiynydd am eu profiadau a'u disgwyliadau o ofal preswyl yng Nghymru.

## Tlodi a hawliadau ariannol heb eu hawlio

Bydd y Comisiynydd yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn ag effaith tlodi ar fywydau pobl hŷn ac yn gweithio gyda phobl hŷn i annog mwy o bobl i fanteisio ar y gefnogaeth y gallai bod hawl ganddynt i'w derbyn.

## Gofalwyr

Bydd y Comisiynydd yn adolygu effaith y Mesur Gofalwyr ar fywydau gofalwyr, gan ystyried a yw eu profiadau a'r gefnogaeth y maent yn ei derbyn wedi gwella ers ei gyflwyno.

## Dementia

Bydd y Comisiynydd yn asesu cynnydd 'Gweledigaeth Genedlaethol Cymru ar Dementia' Llywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda phartneriaid i wella'r gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl sy'n byw â dementia yng Nghymru.

## Cymorth Uniongyrchol i Bobl Hŷn

Bydd y Comisiynydd yn parhau i roi cymorth uniongyrchol i bobl hŷn ledled Cymru drwy ei Thîm Ymholiadau a Chefnogaeth dynodedig, yn enwedig y rhai sy'n wynebu trallod ac sydd mewn sefyllfa lle maent yn arbennig o agored i niwed, lle mai dim ond ymyriad y Comisiynydd sy'n gallu helpu.

## Gwybodaeth Bellach

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth fanwl ynglŷn ag unrhyw elfen o Raglen Waith 2014-15 y Comisiynydd a amlinellir uchod, cofiwch gysylltu â ni (manyllion cyswllt drosodd).



# Older People's Commissioner for Wales Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn eiriolwr dros bobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll eu cornel a siarad ar eu rhan.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu hynysu nac yn wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod yn derbyn y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru yn wlad dda i dyfu'n hŷn ynddi, nid dim ond i rai, ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambria  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Rhif ffôn: 08442 640 670

E-bost: [ask@olderpeoplewales.com](mailto:ask@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)

Twitter: [@talkolderpeople](https://twitter.com/talkolderpeople)